Cyllid & Tollau EM

Nodiadau Hunangyflogaeth (byr)

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009

Pwy ddylai ddefnyddio'r tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)*

Mae'r tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)* wedi ei dylunio ar gyfer y busnesau mwyaf syml pan fo trosiant (cyfanswm y derbyniadau, ffioedd neu arian a enillwyd gan y busnes) yn llai na £67,000 y flwyddyn (neu mi fyddai petaech yn masnachu am flwyddyn gyfan).

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Ni ddylech ddefnyddio'r tudalennau *byr*:

- os ydy'ch trosiant blynyddol yn £67,000 neu'n uwch
- os ydych wedi newid eich dyddiad cyfrifyddu
- os nad yw eich cyfnod cyfrifyddu'n dechrau ar 6 Ebrill 2008 (dim ond os daeth eich busnes i ben cyn 6 Ebrill 2009)
- os cafodd canlyniadau eich cyfrifon, a ddaeth i ben ar ddyddiad yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009, eu datgan ar Ffurflen Dreth flaenorol
- os nad ydych bellach yn paratoi eich cyfrifon ar 'sail arian parod' ond wedi newid i 'arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol' sef 'generally accepted accounting practice' (gelwir hyn yn sail 'gwir a theg' hefyd)
- os ydych yn darparu eich gwasanaethau o dan gytundebau am wasanaethau proffesiynol neu wasanaethau eraill ac rydych wedi cynnwys cofnod ar gyfer incwm wedi'i addasu mewn Ffurflenni Treth cynharach
- os ydych yn far gyfreithiwr sy'n arfer ei grefft
- os cynhelir eich busnes dramor
- os ydych am hawlio Lwfans Adeiladau Amaethyddol neu Ddiwydiannol neu lwfansau cyfalaf eraill ar gyfer eitemau heblaw am offer a pheiriannau
- os nad yw eich 'cyfnod sail' – hynny yw, cyfnod yr hunangyflogaeth rydych yn agored i dreth ar ei chyfer – yr un peth a'ch cyfnod cyfrifyddu
- os ydych am hawlio 'rhyddhad gorgyffwrdd'
- os ydych yn ffermwr, yn arddwr masnachol neu'n rhywun sy'n creu gweithiau llenyddol neu artistig ac rydych am hawlio 'cyfartalu'.
- os ydych am addasu eich elw sy'n agored i daliadau CYG Dosbarth 4 (er enghraifft, mae eich elw'n cynnwys enillion fel cyflogai).

Rhaid i chi gwblhau'r tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)* yn lle hynny. Gallwch gael y rhain, a'r Nodiadau drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Archebu Saesneg ar **0845 9000 909** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Cwblhau'r tudalennau *Hunanasesiad (byr)*

Does dim rhaid i chi lunio cyfrifon ffurfiol bob blwyddyn ond rhaid i chi gadw cofnodion digonol i ategu'r wybodaeth a nodwch ar y tudalennau hyn, er mwyn i ni gael darlun llawn a theg o'ch busnes. Rhaid i chi gadw eich cofnodion tan o leiaf 31 Ionawr 2015, rhag ofn y byddwn yn gofyn i'w gweld.

Os nad oes gennych gyfrifon bydd Taflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits* yn esbonio sut i gyfrifo eich elw trethadwy ac yn egluro sut gaiff yr elw ei drethu. Os oes gennych gyfrifon, mae Taflen Gymorth 229 *Information from your accounts* yn rhoi cymorth ymarferol ynglŷn â chwblhau'r tudalennau *Hunanasesiad*.

Disgwyliwn i chi ddarparu ffigurau terfynol o'ch incwm a'ch treuliau, felly os byddwch yn cynnwys unrhyw ffigurau dros dro, dylech dynnu sylw atynt yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TRG 6 eich Ffurflen Dreth. Nodwch pam eu bod yn rhai dros dro a phryd y disgwyliwch ddarparu'r ffigurau terfynol. Os bydd yn amhosibl i chi ddarparu ffigurau terfynol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich Ffurflen Dreth, dylech roi amcangyfrif o'ch elw trethadwy ym mlwch 30, neu eich colled ym mlwch 31, a gadewch weddill y tudalennau'n wag. Nodwch pam rydych yn gwneud hyn yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall'. Y rheswm mwyaf tebygol fyddai petai eich busnes yn un newydd ac ni fydd eich cyfnod cyfrifyddu cyntaf yn dod i ben tan yn agos i (dyweder o fewn tri mis), neu ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.

Efallai y bydd rhaid i chi gwblhau mwy nag un gyfres o dudalennau *Hunanasesiad*:

- os oes gennych fwy nag un busnes, hyd yn oed os oes gennych un set o gyfrifon sy'n cwmpasu eich holl fusnesau
- os ydych newydd ddechrau neu newydd orffen mewn busnes neu os ydych wedi newid eich dyddiad cyfrifyddu ac mae angen fwy nag un gyfres o gyfrifon arnoch i bennu eich elw trethadwy.

Os oeddech yn weithiwr yn y diwydiant adeiladu ac mae'r person roeddech yn gweithio iddo/iddi wedi dweud wrthych nad oeddech yn hunangyflogedig ar gyfer cytundeb penodol, a didynnwyd treth o'r taliadau a gawsoch o dan drefniadau Talu Wrth Ennill, yna cysylltwch â ni.

Os oes gennych un set o gyfrifon ar gyfer mwy nag un busnes, bydd angen i chi ddidoli'r incwm a'r treuliau ar gyfer pob busnes o'r cyfrifon hynny a chynnwys y manylion ar wahanol setiau o dudalennau *Hunanasesiad*.

Manylion busnes

Blwch 4 *Gofalwyr maeth a gofalwyr oedolion ar leoliad*

Os ydych yn ofalwr maeth neu'n ofalwr oedolion ar leoliad, bydd sut fyddwch yn cwblhau'r tudalennau *Hunanasesiad (byr)* yn dibynnu ar y dull a ddewiswch i gwblhau eich Ffurflen Dreth. Mae Taflen Gymorth 236 *Foster carers and adult placement carers* yn esbonio hyn. Mae fwy o wybodaeth yn **www.hmrc.gov.uk**

Blwch 5 *Os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 2008*

Byddwch yn agored i dreth ar unrhyw elw am y cyfnod o'r dyddiad y dechreusoch weithio i chi eich hun hyd at 5 Ebrill 2009.

Blwch 6 *Os daeth eich busnes i ben cyn 6 Ebrill 2009*

Os ydych wedi peidio â gweithio i chi eich hun rydych yn agored i dreth ar unrhyw elw am y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl eich 'dyddiad diwedd blwyddyn' diwethaf (gweler y nodyn ar gyfer blwch 7), a oedd yn disgyn yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2008 hyd at y dyddiad y daeth eich busnes i ben. Efallai y bydd hawl gennych gael rhyddhad treth a elwir yn 'rhyddhad gorgyffwrdd' yn dibynnu am ba hyd y buoch yn gweithio i chi eich hun. Os credwch fod hawl gennych, cwblhewch y tudalennau *Hunangyflogaeth (llawn)*, ac nid y tudalennau *Hunangyflogaeth (byr)*.

Blwch 7 *Dyddiad cau eich llyfrau neu eich cyfrifon*

Rhaid i bob busnes gadw cofnodion – yn unol â'r gyfraith. Yr arfer ydy cadw eich cyfrifon busnes fesul blwyddyn. Awgrymwn eich bod yn 'cau eich llyfrau' ar yr un dyddiad bob blwyddyn. Y dyddiad hwnnw fydd eich 'dyddiad diwedd blwyddyn' neu eich 'dyddiad cyfrifyddu'.

Os buoch yn gweithio i chi eich hun am lai na 12 mis (a gwnaethoch gwblhau blwch 5) bydd yn rhaid i chi ddewis dyddiad diwedd blwyddyn – ac yna defnyddio'r un dyddiad bob blwyddyn. Gall hyn fod unrhyw ddyddiad ond, gan fod y flwyddyn dreth yn dod i ben ar 5 Ebrill gallai dewis 5 Ebrill wneud pethau'n haws. Os ydy'r dyddiad ym mlwch 7 ar ôl 5 Ebrill 2009 ac rydych eisoes wedi paratoi eich llyfrau am y tro cyntaf, defnyddiwch y ffigurau o'r llyfrau hynny ar gyfer y Ffurflen Dreth hon. Byddwn yn eich trethu ar y rhan honno o'r elw sy'n disgyn o fewn y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Incwm Busnes

Blwch 8 ***Eich trosiant – y derbyniadau, ffioedd, gwerthiant neu arian a enillwyd gan eich busnes***

Efallai weithiau cyfeirir at gyfanswm y gwerthiant, derbyniadau, ffioedd neu arian a enillwyd gan eich busnes ar gyfer y cyfnod hyd at y dyddiad ym mlwch 7 fel eich trosiant.

Mae trosiant yn cynnwys:
- arian parod neu sieciau
- ffioedd, cildyrnau a chomisiynau
- gwerth unrhyw daliadau 'ar ffurf nwyddau' – nad yw'n daliad drwy siec neu arian parod – am waith a wnaed neu am nwyddau a werthwyd.

Dyma'r arian sy'n ddyledus i chi hyd at ddiwedd eich blwyddyn – p'un a gawsoch eich talu mewn gwirionedd ai peidio. Nid yw'n cynnwys lwfans Dechrau Busnes – nodwch hwnnw ym mlwch 29.

Os cewch incwm trwy gytundebau (sy'n pontio eich dyddiad cyfrifyddu) am wasanaethau proffesiynol neu wasanaethau eraill, gweler taflen Gymorth 238 *Revenue recognition in service contracts – UITF 40*.

Treuliau busnes caniataol

Blychau 10 i 19

Bydd treuliau'n amrywio o fusnes i fusnes – ond gallwch ddod o hyd i'r man i osod eich rhai chi o dan y categorïau a gynhwyswyd ym mlychau 10 i 18. Nid yw rhai treuliau yn rhai caniataol at ddibenion treth – er enghraifft, gwesteia cleientiaid hyd yn oed petai gwesteia o'r fath yn arwain yn uniongyrchol at fusnes newydd.

Caniateir rhai treuliau yn rhannol yn unig, er enghraifft, gallech ddefnyddio eich car ar gyfer teithiau busnes yn ogystal â rhai preifat. Gallwch hawlio costau teithio'r busnes yn unig yn erbyn treth. Efallai y gweithiwch o gartref neu efallai y defnyddiwch ystafell yn eich cartref fel swyddfa. Gallwch godi canran y busnes yn unig o'r costau (gwres a golau ac ati) yn erbyn treth. Os ydy'ch cofnodion yn cynnwys cyfanswm eich treuliau bydd yn rhaid i chi gyfrifo cyfartaledd y deunydd preifat, a didynnu'r symiau hynny cyn nodi'r ffigurau ar gyfer treuliau busnes caniataol ym mlychau 10 i 18.

Peidiwch â chynnwys cost neu dibrisiant neu ostyngiad mewn gwerth yng nghyfarpar neu beiriannau a ddefnyddiwch yn y busnes yn y blychau hyn. Yn lle hynny dylech hawlio lwfansau treth a elwir yn 'lwfansau cyfalaf' am yr eitemau hyn (gweler y nodiadau ar gyfer blwch 22 a 23). Ond dylech gynnwys costau cynnal yma.

Lwfansau treth ar gyfer cerbydau a chyfarpar (lwfansau cyfalaf)

Gallwch hawlio lwfansau treth a elwir yn lwfansau cyfalaf, ar gyfer costau, a gwelliannau i, gerbydau a chyfarpar - megis faniau, offer, cyfrifiaduron, dodrefn busnes, ceir (hyd yn oed os prynwyd yr eitem o dan drefniadau hurbwrcas) – na ellir eu caniatáu fel treuliau wrth gyfrifo eich elw trethadwy. Mae'r math o lwfansau cyfalaf y gallwch eu hawlio yn dibynnu ar yr asedion sydd gennych ac amgylchiadau eraill - gweler y nodiadau ar gyfer blychau 22 i 25 isod.
Ni ddylid hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer:
- costau'r hyn y byddwch yn eu prynu a'u gwerthu wrth gynnal eich masnach oherwydd gellir hawlio'r rhain fel treuliau'r busnes
- y llog a ffioedd eraill y gellir codi arnoch am brynu eitemau o dan hurbwrcas. Dylid gwahanu'r taliadau hyn a'u cynnwys ym mlwch 16.

Mae'r cyngor canlynol yn berthnasol dim ond os oes gennych gyfnod cyfrifyddu 'safonol' o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009. Os ddefnyddiwch gyfnod gwahanol yna darllenwch Daflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits*, neu cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth.

Bydd y nodiadau isod, yr enghreifftiau, a'r Taflenni Gwaith ar dudalennau SESN7 i SESN8 yn eich helpu i ddeall sut i hawlio'r lwfansau hyn a sut i gyfrifo'r ffigurau y dylid eu cynnwys ym mlychau 22 i 25. Mae'r Taflenni Gwaith yn ymdrin â'r sefyllfaoedd mwyaf cyffredin a gallant gyfrifo'r rhan fwyaf o lwfansau ond ni ddylech eu defnyddio mewn sefyllfaoedd mwy anghyffredin. Mae mwy o gyngor ac enghreifftiau yn Nhaflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits*.

Blwch 22 ***Lwfans Buddsoddi Blynyddol***

Gallwch hawlio lwfans cyfalaf newydd a elwir yn 'Lwfans Buddsoddi Blynyddol' (LBB) os gwnaethoch brynu cyfarpar (ond nid ceir) ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008, hyd at swm blynyddol o £50,000. Ychwanegwch at ei gilydd gostau'r holl gyfarpar. Os ydy cyfanswm y gwariant yn £50,000 neu lai, gallwch hawlio 100% o'r swm hwnnw fel eich LBB. Os ydy'r cyfanswm yn fwy na £50,000 yna gallwch hawlio hyd at £50,000 o'r cyfanswm fel eich LBB. Nodwch gyfanswm y LBB ym mlwch 22.

Blwch 23 ***Lwfans ar gyfer balans bychan o wariant na roddwyd rhyddhad ar ei gyfer***

Os ydy balans y gost ar ôl hawlio LBB, yn ogystal ag unrhyw falans a ddygwyd ymlaen o flwyddyn flaenorol yn £1,000 neu lai, gallwch hawlio'r swm cyfan hwnnw (cyfanswm y balans ar gyfer gwariant na roddwyd rhyddhad ar ei gyfer) fel 'lwfans cronfeydd bychain'. Nodwch swm y lwfans hwn ym mlwch 23.

Blwch 24 ***Lwfansau cyfalaf eraill***

Efallai y bydd gennych hawl i fathau eraill o lwfansau cyfalaf yn dibynnu ar y gost, y math o ased, ac amodau cymhwyso, er enghraifft:

- lwfans blynyddol o 20%
- lwfans blynyddol wedi'i gyfyngu ar gyfer ceir sy'n costio mwy na £12,000
- lwfans mantoli
- lwfansau cyfalaf uwch o 100% - ar gyfer rhai technolegau sy'n rhoi ystyriaeth i'r amgylchedd neu sy'n llesol i'r amgylchedd.

Darllenwch y nodiadau isod am fwy o fanylion a nodwch gyfanswm y mathau eraill hyn o lwfansau ym mlwch 24.

Lwfans blynyddol o 20%

Pan fyddwch wedi gwario mwy na £50,000 mewn blwyddyn ar gyfarpar, neu os byddwch wedi prynu car a gostiodd £12,000 neu lai (gweler isod pan fo car yn costio mwy), ychwanegwch yr holl wariant at ei gilydd i greu 'prif gronfa' costau. Didynnwch unrhyw Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) hyd at £50,000 yr ydych yn ei gynnwys ym mlwch 22. Gallwch wedyn hawlio lwfans blynyddol o 20% o'r gwerth sy'n weddill yn y gronfa. Er enghraifft, os ydych wedi gwario £70,000 ar gyfarpar ac wedi hawlio £50,000 fel LBB bydd y gweddill o £20,000 yn gymwys am lwfans blynyddol o 20% sef £4,000. Dylech gynnwys y ffigur hwn ym mlwch 24. Dylid cario'r swm sydd ar ôl yn y brif gronfa ar ôl didynnu'r lwfans o 20% ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.

Os byddwch yn gwerthu eitem, neu os na fyddwch bellach yn ei ddefnyddio yn y busnes, os bydd eich busnes wedi dod i ben, didynnwch y derbyniadau a gawsoch wrth werthu unrhyw eitemau yn y gronfa, neu werth marchnad unrhyw eitemau a gadwch (hyd at gost yr eitem), o werth y gronfa a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach neu o gost yr eitem.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Enghraifft 1

Lluniwyd cyfrifon Iwan hyd at 5 Ebrill bob blwyddyn. Yn ystod 2008-09 gwariodd £20,000 ar gyfarpar a phrynodd fan i'w defnyddio yn y busnes am £36,000. Mae'r cyfarpar arbenigol a'r fan gyda'i gilydd yn creu 'cronfa' o gost neu werth. Yn 2008-09 mae'r gronfa yn gymwys am LBB (i fyny at £50,000) ac mae unrhyw wariant dros y swm hwnnw yn gymwys am lwfans blynyddol o 20%.

	Cronfa	Lwfans
Cost y cyfarpar	£20,000	
Cost y fan	£36,000	
Cyfanswm y gost	£56,000	
Llai		
Lwfans Buddsoddi Blynyddol *blwch 22*	£50,000	£50,000
Y swm sy'n gymwys ar gyfer y lwfans blynyddol	£ 6,000	
Llai		
Lwfans blynyddol o 20% *blwch 24*	£ 1,200	£ 1,200
Gwerth y gronfa i'w gario ymlaen i 2009-10	£ 4,800	

Defnydd busnes a phreifat

Pan fyddwch yn defnyddio eitem o gyfarpar at ddibenion y busnes yn ogystal â phreifat, rhoddir pob eitem mewn cronfa ar wahân a dylai'r lwfansau a hawliwch gael eu lleihau gan swm y defnydd preifat. Er enghraifft, os defnyddir car sy'n costio £12,000, 60% ar gyfer busnes a 40% at ddefnydd preifat, byddai'r gost yn cael ei rhoi mewn cronfa ar wahân a byddai'r lwfans blynyddol o 20% sef £2,400 (£12,000 x 20%) yn cael ei ostwng i 60% o'r swm hwnnw, hynny yw £1,440. Bydd yr enghraifft ar y Taflenni Gwaith isod yn eich helpu.

Lwfansau blynyddol wedi'u cyfyngu ar gyfer ceir sy'n costio mwy na £12,000

Os prynwch gar sy'n costio mwy na £12,000 ni allwch hawlio mwy na £3,000 ar ei gyfer mewn unrhyw un flwyddyn ac felly rhaid cyfyngu'r lwfans blynyddol o 20% i £3,000. Rhowch bob car sy'n costio mwy na £12,000 mewn 'cronfa gar' ar wahân a pharatowch gyfrifiad ar wahân ar gyfer pob un, tra eich bod yn eu perchen.

Enghraifft 2

Ym mis Ionawr 2009 prynodd Glyn gar am £16,000. Defnyddir y car 60% at ddibenion busnes a 40% at ddibenion preifat. Ni all y car gael ei gynnwys yn y brif gronfa ac nid yw'n gymwys ar gyfer y LBB. Oherwydd bod y car wedi costio mwy na £12,000 gall Glyn hawlio lwfansau cyfalaf yn unig o hyd at £3,000 (nid 20% o'i werth oherwydd byddai hynny'n fwy na £3,000).

	Cronfa'r car	Lwfans
Cost y car	£16,000	
Lwfans blynyddol (£16,000 x 20% *wedi'i gyfyngu i £3,000)*	£ 3,000	£1,800 (60%)
Gwerth a gariwyd ymlaen	£13,000	

Oherwydd bod Glyn yn defnyddio ei gar 40% at ddefnydd preifat rhaid cyfyngu'r £3,000 i gyfartaledd y defnydd busnes o 60%, neu £1,800. Felly, ychwanegir £1,800 at y lwfansau ym mlwch 24 ar gyfer 5 Ebrill 2009.

Lwfans mantoli

Os gwerth eitem mewn cronfa ased unigol neu gronfa gar, ac mae'r derbyniadau neu'r gwerth yn llai na gwerth y gronfa neu gost yr eitem, gelwir y gwahaniaeth y lwfans mantoli a dylid ei gynnwys gydag eitemau eraill ym mlwch 24.

Lwfansau cyfalaf uwch

Gallwch hawlio lwfansau cyfalaf o 100% ar gyfer:

- cyfarpar penodol ar gyfer arbed ynni neu ddŵr a ddefnyddir yn eich busnes (hyd yn oed os byddwch fel arall wedi defnyddio eich LBB)
- car newydd gydag allyriad CO_2 isel heb fod yn fwy na 110gm am bob km a yrrir (hyd yn oed os ydy'r car yn costio mwy na £12,000)
- cyfarpar ar gyfer ail-lenwi cerbydau gyda nwy naturiol, bio nwy neu danwydd hydrogen (hyd yn oed os byddwch fel arall wedi defnyddio eich LBB)

Gweler **www.eca.gov.uk** am fwy o wybodaeth.

Enghraifft 3

Mae Dewi Jones yn beintiwr a phapurwr. Dechreuodd weithio ar liwt ei hunan ar 6 Ebrill 2008. Mae'n penderfynu llunio ei gyfrifon hyd at 5 Ebrill bob blwyddyn (5 Ebrill yw ei ddyddiad cyfrifyddu).

Pan ddechreuodd, prynodd ysgolion am £2,000 a chyfarpar arbenigol am £18,000. Yna ar 1 Rhagfyr 2008 prynodd fan i'w defnyddio yn y busnes am £36,000. Mae'r ysgolion, y cyfarpar arbennig a'r fan ar y cyd yn creu 'prif gronfa' costau neu werth. Yn 2008-09 mae'r gronfa yn gymwys am LBB ac mae unrhyw wariant dros y ffigur hynny yn gymwys am lwfans blynyddol o 20%. Yn 2009-10 bydd y lwfans blynyddol yn 20% o weddill y gronfa a ddygwyd ymlaen. .

Mae Dewi'n penderfynu cau'r busnes ar 30 Medi 2010. Mae'n gwerthu'r fan am £14,000 ac yn sgrapio'r ysgolion a chyfarpar arall. Dyma gyfrifiad o lwfansau cyfalaf Dewi:

	Y brif gronfa	**Lwfans**
Y cyfnod a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009		
Cost yr ysgolion	£ 2,000	
Offer arbenigol	£18,000	
Cost y fan	£36,000	
Cyfanswm y gwariant	£56,000	
Llai		
Lwfans Buddsoddi Blynyddol *blwch 22*	£50,000	£50,000
Gweddill yn y gronfa	£ 6,000	
Llai		
Lwfans blynyddol o 20% *blwch 24*	£ 1,200	£ 1,200
Gwerth i'w gario ymlaen i 2009-10	£ 4,800	
Y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2010		
Gwerth a ddygwyd ymlaen	£ 4,800	
Llai		
Lwfans blynyddol o 20% (£4,800 x 20%) *blwch 24*	£ 960	£ 960
Gwerth i'w gario ymlaen i 2010-11	£ 3,840	
Y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2010		
Gwerth a ddygwyd ymlaen	£ 3,840	
Llai		
Derbyniadau gwaredu	(£14,000)	
Tâl mantoli *(nodwch ym mlwch 25 ar Ffurflen Dreth 2010-11)*	£10,160	

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Blwch 25 ***Cyfanswm y taliadau mantoli – pan fyddwch wedi gwaredu eitemau am fwy na'u gwerth***

Pan fyddwch yn gwerthu eitem rydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, didynnwch y swm a gawsoch ar ei chyfer (derbyniadau'r gwerthiant) o werth y gronfa a ddygwyd ymlaen neu'r gost. Yn yr un modd os nad ydych yn defnyddio eitem at ddibenion busnes, didynnwch ei gwerth o werth y gronfa neu'r gost. Os ydy derbyniadau gwerthiant neu werth yr eitem yn fwy na gwerth y gronfa neu'r gost, yna gelwir y gwahaniaeth yn 'dâl mantoli' ac mae'n agored i dreth. Nodwch gyfanswm unrhyw daliadau mantoli ym mlwch 25.

Taflenni Gwaith ar gyfer blychau 22 i 25

Defnyddiwch y Taflenni Gwaith isod i gyfrifo cyfanswm y lwfansau cyfalaf neu'r taliadau mantoli sydd ar gael ar eich cyfarpar ac eitemau eraill. Gall rhan fwyaf o eitemau cyfarpar gael eu cynnwys yn y brif gronfa (Taflen Waith A) ond nid pob un. Defnyddiwch Daflen Waith ar wahân ar gyfer pob eitem a ddefnyddir yn rhannol yn eich busnes ac yn rhannol yn breifat (Taflen Waith B), ac ar gyfer pob car sy'n costio mwy na £12,000 (Taflen Waith C).

A Prif Gronfa

Cyfanswm yr eitemau newydd sy'n dod i mewn i'r gronfa eleni	£
Llai Lwfans Buddsoddi Blynyddol (hyd at £50,000) *copïwch i flwch 22*	£
Y gweddill sydd ar ôl	£
Ychwanegwch Gwerth y gronfa a ddygwyd ymlaen o Ffurflen Dreth y llynedd	£
Cyfanswm	£

Os ydy'r cyfanswm yn £1,000 neu lai, nodwch y swm llawn ym mlwch 23.

Os ydy'r cyfanswm yn fwy na £1,000, lluoswch y cyfanswm gyda 20% a nodwch y canlyniad ym mlwch 24.

Os ydy'r busnes wedi dod i ben dylid didynnu derbyniadau'r gwerthiant (neu eu gwerth marchnad os cadwch yr eitemau) o unrhyw werth y gronfa a ddygwyd ymlaen. Os bydd unrhyw werth ar ôl yn y gronfa fe'i hystyrir yn lwfans mantoli a dylid ei nodi ym mlwch 24. Os bydd derbyniadau gwerthiant (neu'r gwerth) yn fwy na gwerth y gronfa neu'r gost, nodwch y gwahaniaeth fel tâl mantoli ym mlwch 25.

B Ased unigol gydag ychydig o ddefnydd preifat

Gwerth a ddygwyd ymlaen neu gost eitem newydd sy'n dod i mewn i'r gronfa eleni £

Os ydych wedi gwaredu'r eitem

Llai

Derbyniadau am/gwerth yr eitem a gymerwyd allan o'r busnes (ni all fod yn fwy na'r gost) £

Lwfans mantoli - *cynhwyswch ym mlwch 24**
neu, os ydy'r derbyniadau'n fwy na'r gwerth/cost
y tâl mantoli - *cynhwyswch ym mlwch 25** £

Neu, os ydych wedi cadw'r eitem

Llai

Lwfans blynyddol o 20% (20% y gwerth neu'r gost) - *cynhwyswch ym mlwch 24** £

Gwerth i'w gario ymlaen £

*Dylech leihau'r swm yn y blychau hyn gan gyfran y defnydd preifat ar gyfer pob eitem.

C Car sy'n costio mwy na £12,000

Gwerth a ddygwyd ymlaen o Ffurflen Dreth y llynedd, **neu** gost car newydd sy'n dod i mewn eleni £

Os ydych wedi gwaredu car

Llai

Derbyniadau am/gwerth y car a gymerwyd allan o'r busnes (ni all fod yn fwy na'r gost) £

Lwfans mantoli - *cynhwyswch ym mlwch 24**
neu, os ydy'r derbyniadau'n fwy na'r gwerth/cost
y tâl mantoli - *cynhwyswch ym mlwch 25** £

Neu, os ydych wedi cadw'r car

Llai

Lwfans blynyddol (20% y gwerth neu'r gost uchafswm £3,000) - *cynhwyswch ym mlwch 24** £

Gwerth i'w gario ymlaen £

*Dylech leihau'r swm yn y blychau hyn gan gyfran y defnydd preifat ar gyfer pob eitem.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Cyfrifo eich buddiannau trethadwy

Blwch 26 ***Nwyddau neu wasanaethau at eich defnydd eich hun***

Os byddwch chi, neu eich teulu neu eich ffrindiau, yn cymryd unrhyw stoc neu nwyddau gwneud allan o'ch busnes rhaid i chi gynnwys y gwerth (ac nid y gost i chi) yma, o'r hyn a gymerwyd, oni bai eich bod eisoes wedi cynnwys y gwerth yn eich trosiant.

Os ydych wedi cynnwys treuliau gros ym mlychau 10 i 18, hynny yw, ni wnaethoch ddidynnu unrhyw dreuliau anghaniataol yno, nodwch y symiau anghaniataol hynny yma ym mlwch 26.

Cyfanswm yr elw trethadwy neu golled net y busnes

Defnyddiwch y Daflen Waith isod i gyfrifo'r ffigurau ar gyfer blychau 27, 30 neu 31.

Taflen Waith ar gyfer blychau 27, 30 neu 31

Dechreuwch gyda ffigur eich elw net *blwch 20* neu ffigur eich colled net *blwch 21*	A	£
Ychwanegwch Eitemau sy'n cynyddu eich elw (neu'n gostwng eich colled) Taliadau mantoli *blwch 25*	B	£
Nwyddau neu wasanaethau at eich defnydd eich hun *blwch 26*	C	£
Cyfanswm *blwch A + blwch B + blwch C*	D	£
Llai Eitemau sy'n gostwng eich elw (neu'n cynyddu eich colled) Lwfansau cyfalaf *blwch 22 + blwch 23 + blwch 24*	E	£
Elw net y busnes *Blwch D llai blwch E - os ydy'r canlyniad yn bositif copïwch y ffigur i flwch 27*	F	£
neu golled net y busnes *Blwch D llai blwch E - os ydy'r canlyniad yn negyddol copïwch y ffigur i flwch 31*	G	£
Llai colledion a ddygwyd ymlaen (hyd at y swm ym mlwch 27)	H	£
Cyfanswm *blwch F llai blwch H*	I	£
Ychwanegwch *Unrhyw incwm arall y busnes (blwch 29)*	J	£
Cyfanswm yr elw trethadwy o'r busnes hwn *- copïwch i flwch 30 blwch I + blwch J*	K	£

Colledion, Cyfraniadau YG Dosbarth 4 a didyniadau

Blychau 32 i 34 *Colledion*

Mae rheolau'n bodoli ynghylch sut y gellir gwrthbwyso colledion a therfynau amser ynglŷn â gwneud ceisiadau ar gyfer colledion. Rhaid gwneud rhai ceisiadau erbyn 31 Ionawr 2011. Ni fyddwn fel arfer yn derbyn ceisiadau hwyr. Efallai y byddwch am gael cyngor proffesiynol neu gallech ofyn i ni am Daflen Gymorth 227 *Losses*, sy'n cynnwys mwy o wybodaeth a thaflen waith i'ch helpu i gadw trefn ar eich colledion.

Os ydych eisoes wedi gwneud cais am y golled yn 2008-09 dylech ei chynnwys o hyd yn y blwch perthnasol ar eich Ffurflen Dreth.

Os ydy eich cais yn erbyn incwm neu enillion mewn blwyddyn gynharach, neu os ydych yn ail-wneud cais rydych eisoes wedi ei wneud, dylech roi manylion ym mlwch 19 ar dudalen TR 6 eich Ffurflen Dreth.

Blwch 35 *Os ydych wedi eich eithrio rhag talu Cyfraniadau YG Dosbarth 4*

Byddwch wedi eich eithrio rhag talu Cyfraniadau YG Dosbarth 4:

- os oeddech yn ddyn sy'n 65 oed neu'n hŷn neu'n fenyw sy'n 60 neu'n hŷn ar 6 Ebrill 2008
- os oeddech o dan 16 oed ar 6 Ebrill 2008
- os nad oeddech yn preswylio yn y DU at ddibenion treth yn ystod 2008-09 (os nad ydych yn siŵr cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth).

Os ydych yn ymddiriedolwr neu'n blymiwr neu'n hyfforddwr gyrru gallech fod wedi eich eithrio hefyd; cysylltwch â ni os credwch fod hyn yn berthnasol i chi.

Os ydych wedi eich eithrio rhowch 'X' ym mlwch 35. Peidiwch â chwblhau blwch 36.

Blwch 36 *Os rhoddwyd tystysgrif gohirio talu cyfraniadau YG Dosbarth 4 i chi ar gyfer 2008-09*

Os ydych yn gyflogedig yn ogystal â hunangyflogedig, gallai Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gytuno i ohirio talu rhai o'ch Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 tan y gellir pennu cyfanswm eich cyfraniadau. Os cytunir eich cais i ohirio, byddant yn anfon tystysgrif gohirio atoch (ffurflen CA2703 *Caniatáu gohirio rhwymedigaeth i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 a Dosbarth 4*). Rhowch 'X' ym mlwch 36 dim ond os rhoddwyd tystysgrif gohirio i chi eisoes. Os ydych am wneud cais i ohirio, yna cysylltwch â ni.

Blwch 37 *Didyniadau ar ddatganiadau talu a didynnu a roddir gan gontractwyr*

Os ydych yn isgontractiwr yn y diwydiant adeiladu, nodwch gyfanswm y didyniadau a wnaed gan eich contractwyr o daliadau a gawsoch yn y flwyddyn 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009. Dangosir y didyniadau ar eich datganiadau tâl a didyniadau CIS. Peidiwch ag anfon y rhain gyda'ch Ffurflen Dreth. Dylech gynnwys cyfanswm y didyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ym mlwch 35 hyd yn oed os ydych eisoes wedi hawlio ad-daliad o'ch didyniadau CIS.

Nodwch swm yr ad-daliad a gafwyd neu a wrthbwyswyd yn erbyn treth arall sy'n ddyledus ym mlwch 1 yr adran 'Gorffen eich Ffurflen Dreth' ar eich Ffurflen Dreth .